Sychlanhau

Beth ddywed y gyfraith

Os ydych chi'n cael dillad neu eitemau eraill wedi'u sychlanhau, mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i'r sychlanhau:

- **gael ei gyflawni gyda gofal a sgil rhesymol**. Mae hyn yn golygu y dylai'r eitemau gael eu glanhau yn gywir a heb eu difrodi; *a*
- **gael ei gwblhau o fewn amser rhesymol,** oni bai fod amser penodol wedi'i gytuno arno**.** Byddai hyn fel arfer yn golygu o fewn ychydig ddyddiau, oni bai fod yr oedi o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y sychlanhawyr**;** *a*
- **gael ei ddarparu am gost resymol,** oni bai fod pris pendant wedi'i gytuno arno

Os **na achoswyd y difrod** gan y sychlanhawyr, neu os nad oedd oherwydd **traul a gwisgo**, efallai fod gennych hawliau yn erbyn y **gwerthwr**.

Cofiwch:-

- **gadw** eich tocyn sychlanhau, oherwydd fe allech chi gael trafferth i adfer eich eiddo hebddo
- efallai **na** fydd sychlanhau yn cael gwared â bob **staen**
- gall sychlanhau **amlygu traul** sydd yno'n barod, er enghraifft, llenni wedi gwanhau oherwydd eu bod wedi cael gormod o haul.

Eich hawliau os ydyw'r sychlanhau yn anfoddhaol

Ad-daliad llawn neu ail-lanhau
Os ydyw'r eitem wedi'i lanhau'n wael, fe allwch ofyn am ad-daliad. Os ydyw'r glanhawr yn cynnig ail-lanhau'r eitem gall fod yn rhesymol i ganiatáu iddynt wneud hyn.

Iawndal
Efallai y bydd gennych hawl i gael iawndal os: -

- yw'r cytundeb wedi'i dorri (**tor-cytundeb**) ac ni chyflawnwyd y gwaith glanhau gyda gofal a sgil rhesymol na'i orffen o fewn amser rhesymol neu am bris rhesymol (neu un y cytunwyd arno); *neu*
- yw'r glanhawr wedi bod yn **esgeulus** ac wedi difrodi'r eitem, er enghraifft, eich cynghori fod dilledyn yn ddiogel i gael ei sychlanhau a hyn ddim yn wir; *neu*
- wnaeth y sychlanhawr **ddatganiad ffug** er mwyn eich perswadio i ddefnyddio'u gwasanaeth; *neu*
- ydych chi wedi derbyn cynnig i **ail lanhau** neu **atgyweiriad** ac nid yw hyn wedi datrys y broblem.

Bydd maint yr iawndal yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tor cytundeb ac fe allai gynnwys cost cael yr eitem wedi'i lanhau yn rhywle arall. Os ydyw'r eitem wedi'i ddifetha'n llwyr, seilir eich iawndal ar werth yr eitem. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y pris pan y'i prynwyd ond gall y sychlanhawr ddidynnu rhywfaint er mwyn caniatáu am y

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

defnydd gawsoch chi o'r eitem. Os ydyw'n bosibl atgyweirio'r eitem a'i gael yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol, seilir eich iawndal ar y gost hon.

Sut i ddatrys eich problem

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth yw'ch hawliau, fe fydd angen i chi gysylltu â'r sychlanhawr, sy'n gyfrifol am ddelio â'ch cwyn. Dylai'r camau canlynol ddatrys eich problem:-

- gwirwich nad yw'r diffyg yn ganlyniad **traul a gwisgo arferol**

- **cysylltwch â'r sychlanhawr ar unwaith.** Ewch nôl â'r eitem, a gofynnwch am gael siarad â'r rheolwr neu'r perchennog. Ar y llaw arall, ysgrifennwch at y rheolwr neu'r perchennog, a chadwch gopi o'ch llythyr. Esboniwch eich problem yn bwyllog ond yn gadarn a gofyn am **ad-daliad**, **atgyweiriad** neu **iawndal.**

- **os na allwch gytuno ar beth achosodd y diffyg,** ceisiwch ddarganfod os ydyw'r cwmni yn aelod o gymdeithas fasnach megis **Cymdeithas Gwasanaethau Tecstilau (TSA).** Mae gan TSA wasanaeth cymodi anffurfiol fydd yn ceisio datrys yr achos. Os bydd hyn yn methu fe awgryman nhw asesiad gan dŷ profi annibynnol. Bydd tâl am hyn, a thelir y ffî gan y parti sy'n colli**.**

- os nad yw'r sychlanhawr yn aelod o TSA neu gymdeithas fasnach arall, neu os nad ydych am ddefnyddio gwasanaeth cymdeithas, gall fod yn angenrheidiol i gael barn arbenigwr. Gall yr arbenigwr fod yn berson cymwys, ond tŷ profi sy'n arbenigo yn y maes hwn yw'r dewis amlwg (gweler isod) Mae angen i chi ysgrifennu at y sychlanhawr a chytuno pa arbenigwr i'w ddefnyddio, a chytuno eich bod **ill dau** yn ymrwymol i ganfyddiadau'r arbenigwr.

- os ydych chi wedi dod o hyd i'ch tystiolaeth a'r mater yn dal heb ei ddatrys, ysgrifennwch at y sychlanhawr gan ailadrodd eich cwyn a'r camau a gymerwyd. Dywedwch eich bod yn rhoi 14 diwrnod iddynt i ddatrys y broblem neu fe fyddwch yn ystyried cymryd camau cyfreithiol. Anfonwch eich llythyr gyda **dosbarthiad wedi'i gofnodi** gyda chopi i'r brif swyddfa, os yn berthnasol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn **cadw copïau** o bob gohebiaeth.

- **os ydyw'r sychlanhawr yn gwneud cynnig amgen,** fe allwch naill ai dderbyn neu barhau i **drafod.** Byddwch yn realistig yn yr hyn y byddwch yn ei dderbyn. Efallai na chewch chi gynnig gwell wrth fynd i'r llys.

- **os nad yw'r sychlanhawr yn ateb eich llythyron,** yn gwrthod gwneud unrhyw beth, neu'n gwneud cynnig terfynol nad ydych yn fodlon ei dderbyn, yr unig ddewis arall sydd gennych yw mynd i'r llys. **Cofiwch, mynd i'r llys yw eich opsiwn olaf.** Cyn dechrau achos llys mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o **dystiolaeth.** Bydd rhaid i chi brofi mai'r sychlanhawr sy'n gyfrifol am y broblem ac efallai y bydd yn rhaid i chi drefnu adroddiad arbenigol am y broblem. Bydd angen i chi hefyd ddarganfod os oes gan y

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

cwmni **ddigon o arian i dalu eich hawliad**. Nid yw'n werth erlyn person neu gwmni sydd heb arian.

Os ydych chi wedi colli arian ar sychlanhau, peidiwch â gwastraffu mwy o arian ar achos na allwch ei ennill.

Sefydliadau sy'n delio â sychlanhau

Cymdeithas Gwasanaethau Tecstilau (TSA)
Mae gan TSA wasanaeth cymodi mewnol y gallwch ei ddefnyddio os oes gennych gwyn yn erbyn un o'i aelodau. Gellir cysylltu â TSA ar: **020 7843 9490.**

Tai profi Annibynnol
Canolfan Technoleg Sychlanhau
Tel: **01943 816545**

Grŵp Technoleg Tecstilau Prydain
Tel: **0161 445 8141**

Gwasanaeth Cyflafareddu Cwynion Sychlanhau (DCAS)
Mae DCAS yn gallu profi dillad a darparu adroddiad y gellir ei ddefnyddio mewn achos llys. Mae tâl am y gwasanaeth hwn.
Tel: **01423 560436**

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dechrau achos llys
- Cyflenwr yn mynd allan o fusnes
- Nwyddau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 14 Rhagfyr 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr